# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 24 Hydref 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 97(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru)

(60 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Recriwtio Athrawon

(45 munud)

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Y Rhaglen Tai Arloesol

(45 munud)

## 6 Datganiad gan y Prif Weinidog: Y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Brexit

(45 munud)

## 7 Rheoliadau Dyddodi Gwastraff heb Awdurdod (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2017

(15 munud)

**NDM6540** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Dyddodi Gwastraff Heb Awdurdod (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2017.

**Dogfennau ategol**
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 8 Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2017

(15 munud)

**NDM6539** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2017.

**Dogfennau ategol**
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 9 Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2017

(15 munud)

**NDM6538** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2017.

**Dogfennau ategol**
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 10 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 25 Hydref 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 19 Hydref 2017 i'w hateb ar 24 Hydref 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella diogelwch ar y ffyrdd? (OAQ51256)

2. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau diogelwch cleifion yng Nghymru? (OAQ51245)

3. Vikki Howells (Cwm Cynon): Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghwm Cynon? (OAQ51248)

4. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio prosesau caffael cyhoeddus i gynyddu lefelau cynhyrchu'r diwydiant garddwriaeth yng Nghymru? (OAQ51250)

5. Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am batrymau hunan-gyflogaeth yng Nghymru? (OAQ51252)**R**

6. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector gofal lliniarol yng Nghymru? (OAQ51226)

7. David Rowlands (Dwyrain De Cymru): Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd unrhyw newidiadau i reolaethau mewnfudo yn dilyn Brexit yn ei chael ar y GIG yng Nghymru? (OAQ51229)

8. Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am strategaeth leoli Llywodraeth Cymru? (OAQ51234)**W**

9. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa sicrwydd y mae'r Prif Weinidog wedi'i gael gan Lywodraeth y DU yn ystod trafodaethau Brexit mewn perthynas â sicrhau hawliau dynol? (OAQ51249)

10. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fudd cymunedol o gynlluniau ynni? (OAQ51253)**W**

11. David Rees (Aberafan): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i recriwtio meddygon teulu i bractisiau mewn ardaloedd difreintiedig ledled Cymru? (OAQ51254)

12. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd economaidd yng ngogledd Cymru? (OAQ51223)

13. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd ymgynghori cyhoeddus ar gynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer ad-drefnu ysgolion yng Nghymru? (OAQ51255)

14. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): Pryd oedd y tro diwethaf i'r Prif Weinidog gynnal trafodaethau ynghylch Brexit gydag arweinwyr rhanbarthol Ewropeaidd eraill? (OAQ51246)

15. David Melding (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd yn y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd yng Nghanol De Cymru? (OAQ51251)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

---

**Dydd Mawrth 7 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Cofio ein Lluoedd Arfog - Anrhydeddu Aberthau'r Gorffennol a Chefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Diwydiant Bwyd a Diod (30 munud)
- Cynnig i amrywio'r drefn o ystyried Gwelliannau Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (5 munud)
- Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud):
    - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017
    - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017
- Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 (15 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2016-17 (60 munud)

**Dydd Mercher 8 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Ymchwiliad i Blant a Phobl Ifanc sydd Wedi Bod Mewn Gofal
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Llanw'n Troi? Adroddiad yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (60 munud)
- Dadl Fer - David J Rowlands (Dwyrain De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl: Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddau (60 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol 2016-17 Comisiynydd y Gymraeg (60 munud)
- Dadl: Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (120 munud)

**Dydd Mercher 15 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Seilwaith Digidol Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer - Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl: Adolygiad Blynyddol 2016-2017 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (60 munud)
- Dadl: Cyfnod 4 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (15 munud)
- Dadl: Cyfnod 3 Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (180 munud)

**Dydd Mercher 22 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru) (30 munud)